

**COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR BRO LLANGELEL**  
**2024**

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol Nos Lun, Mai 20ed 2024 yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr am 7.30y.h

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng R Evans.

**PRESENNOL:** Cyng.- Jamie Ayres, John Crossley, Delyth Evans, Richard Evans, Aled Eynon, Ken Howell, Marc Rees, Gethin Richards(trwy ZOOM), Eleri Samson, Antoni Schiavone, Dilwyn Smith ac Adrian Thomas, Clerc – Stella Jones  
Hefyd yn bresennol :- Cyng Sir Hazel Evans a'r Cyfieithydd

**1. 05/24 YMDDIHEURIADAU:** Cyng Angharad Edwards

**2. 05/24 CADARNHAU COFNODION 2023:**

Roedd y cofnodion wedi ei cadarnhau yng nghyfarfod misol Mehefin 26:06:2023 Cynigydd: Cyng. J Ayres  
Eilydd: Cyng. A Schiavone

**3. 05/24 ETHOL CADEIRYDD(swydd cyfnod 2 flynedd) am 2023/25:-**

Cyng. Richard Evans fel Cadeirydd yn parhau am ei ail dymor yn y cyfnod 2 flynedd - Cynigwyd yn unfrydol ei fod yn parhau

**4. 05/24 ETHOL IS-GADEIRYDD (swydd cyfnod 2 flynedd) am 2023/25:-**

Cyng. Ken Howell yn parhau fel is Gadeirydd am ei ail dymor yn y cyfnod 2 flynedd - Cynigwyd yn unfrydol ei fod yn parhau

**5. 05/24 LWFANS Y CADEIRYDD:**

Am y flwyddyn 2024 /25 fe gytunwyd fel y flwyddyn cynt i'r Cadeirydd roi anfoneb am unrhyw gostau tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**6. 05/24 CYFLOG Y CLERC:** Yn ôl cais y Clerc cytunwyd cadw'r cyflog fel y mae.

**7. 05/24 DERBYN MANTOLEN 2023 – 2024:**

Gwelwyd copi o'r fantolen ond ni ellid ei phasio nag arwyddo gan nad yw wedi dod nôl wrth yr Archwilydd Mewnol. Bu'n rhaid chwilio am archwilydd arall yn lle Mrs Ann James oherwydd amgylchiadau salwch yn y teulu rhaid oedd chwilio rhywun yn ei lle cytunodd Mr Tim Llewelyn i wneud y gwaith.

**9. 05/24 APWYNTIO ARCHWILYDD MEWNOL am 2023-24:**

Cytunwyd i ofyn i Mrs Ann James o Gapel Iwan i fod yn Archwilydd Mewnol eto am y flwyddyn 2024/25 gan obeithio bydd y sefyllfa iechyd yn well yn y teulu.

**10. 05/24 CYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU**

Neuadd y Ddraig Goch - Cyng. Ken Howell

Llywodraethwyr Bryn Saron – Cyng. Antoni Schiavone

Llywodraethwyr Penboyr - Cyng. Dilwyn Smith

Parc Saron – Cyng Gethin Richards

Parc Pentrecwrt – Cyng. Jamie Ayres

Pwyllgor Llifogydd Llandysul – Cyng. Adrian Thomas

Parc Pw Drefach - Felindre – Clerc heb gael ateb a oeddent eisiau aelod o'r cyngor ar ei pwyllgor – cymrwyd felly nad oeddent eisiau neb.

**11. 05/24 MATERION CYFANSODDIADOL:**

i. Cytunwyd i dderbyn y cynnig bod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar nos Lun olaf bob mis am 7.30y.h arwahan i fisoedd Awst a Rhagfyr pan na fydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal. Ym mis Mai os bydd y dydd Llun olaf yn cwmpo ar Wyl y Banc bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal ar y nos Lun yr wythnos cynt. Yr un peth i ddigwydd os bydd unrhyw nos Lun cyfarfod arall, yn ystod y flwyddyn, yn syrthio ar Wyl y Banc yr un fydd y drefn.- cytunwyd i hyn

**Dyddiadau Cyfarfodydd 2024/25 :-**

**2024:-** Mai 20ed, Mehefin 24ain, Gorffennaf 29ain, Medi 30ain, Hydref 28ain, Tachwedd 25ain.

**2025:-** Ionawr 27ain, Chwefror 24ain, Mawrth 31ain, Ebrill 28ain, Mai 19eg.

ii. Unrhyw fater angen gwaith cyfreithiol i gael ei ddelio gyda Agri Advisor, Cyfreithwyr, Stryd y Bont, CN Emlyn - cytunwyd

Daeth y rhan yma o'r cyfarfod i ben am 7.50yh

CADEIRYDD\_\_\_\_\_

DYDDIAD\_\_\_\_\_